# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

**DYDD** Llun, 1 Gorffennaf 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G. Davies (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell 59, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin: 9.00yb - 9.10 yb

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i'r Pennaeth ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os yw'r swydd yn wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn cael ei gynnwys y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau a ddaethai i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiadau |
|---|---|
| Dewi Sant<br>(1 lle gwag – o 3ydd Tachwedd 2019 – 1 enwebiad) | Miss D Davies |
| Gorslas<br>(1 lle gwag – o 1af Medi 2019 – 1 enwebiad) | Cllr. Aled Vaughan Owen |
| Ysgol Gynradd Llandeilo<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr C. New |
| Maes Y Morfa<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr A. Muszynski |

**3. COFNOD PENDERFYNIADAU - 3 MEHEFIN 2019**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2019 yn gofnod cywir.**

[Nodwyd, yn dilyn y cyfarfod uchod, yr oeddid wedi esbonio fod yr awdurdod i wneud penderfyniad ynghylch cofnod 2, ‘Cymeradwyaeth i weithredu Cynigion Ffedereiddio (a arweinir gan yr Awdurdod Lleol)’, yn Swyddogaeth Weithredol, yn

hytrach na Swyddogaeth Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, yn unol â Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2007, ac felly byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol maes o law.]

| | |
|---|---|
| **AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** | **DYDDIAD** |